

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod)
	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymwneud)
	Sharon Winogorski	(Prif Swyddog Cyllid) eitem 10
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)

1 **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion a Materion yn Codi**

2.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 395 (a gynhaliwyd ar 11.02.16) a thrafodwyd y materion canlynol:

Eitem 4.1.5 – roedd angen gorffen brawddeg “yn amodol ar *nifer o faterion gan gynnwys argymhellion y Papur Gwyn a chynnwys Siartr newydd y BBC ac argymhellion Adolygiad 2017*”.

Eitem 4.1.8 – nodwyd mai'r Prif Weithredwr nid y Cadeirydd gyflwynodd y wybodaeth parthed cynllun busnes y cynlluniau adleoli a chydleoli.

Eitem 5.8.1 – nodwyd mai'r bwriad yw negydu cytundebau rhag archebu erbyn diwedd 2016 (ac nid 2017).

6.1.9 - Nodwyd y dylid symud y cofnod i Adroddiad y Prif Weithredwr.

7.1.12 - Nodwyd y dylai'r cofnod gyfeirio at Ben-blwydd y Frenhines yn hytrach na dathliadau'r Jiwbilî.

Cymeradwydd yr Awdurdod y cofnodion ar sail y newidiadau uchod.

2.2 Materion yn Codi

[Crynodeb: Adroddodd IHJ ar y trafodaethau diweddaraf dros HD. Roedd yn gobeithio y byddai'r gwasanaeth HD yn cael ei ail-gyflwyno erbyn Mehefin 6ed.]

3. Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau'r Awdurdod

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau. Cafwyd trafodaeth am sut i ddefnyddio a monitro'r gofrestr yng nghyfarfodydd yr Awdurdod. Awgrymwyd y gellid ceisio blaenoriaethu eitemau ar y gofrestr gan ddefnyddio lliwiau i ddangos pwysigrwydd eitemau.

Esboniodd y Cadeirydd ei fod am i'r gofrestr gael ei defnyddio fel dull o gadw golwg ar gynnydd yn ymwneud â phenderfyniadau'r Awdurdod, ond nad oedd am drafod pob eitem yn fisol, ond ei fod yn awyddus i'r Aelodau godi pwyntiau'n ymwneud ag eitemau unigol yn ôl yr angen.

Cafwyd trafodaeth am y gofrestr a chyfeiriwyd yn benodol at y pwyntiau canlynol.

Pwynt 5 - Pwerau benthyc

Esboniwyd fod y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cynnal cyfarfod gyda swyddogion y Trysorlys, lle cafwyd cyfle i gyfeirio at yr angen am gadarnhau pwerau benthyc ar gyfer y prosiectau Adleoli a Chydaleoli. Ers hynny mae cais ffurfiol wedi ei gyflwyno gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr i'r Ysgrifennydd Gwladol i gadarnhau manylion pwerau benthyc S4C. Bydd swyddogion yn parhau i drafod y mater gyda DCMS.

Pwynt 7 -Datblygu pyrth ar-lein ar gyfer dysgwyr a phobl ifanc. Cyfeiriwyd at y bwriad i lansio'r pyrth erbyn Awst 2016 a chyflwyno diweddariad i'r Awdurdod cyn hynny. Eglurodd GW mai'r bwriad gwreiddiol oedd cynnal cynhadledd ar gyfer pobl ifanc ar 5 Mawrth ond yn anffodus roedd y diwrnod yn cyd-daro gydag Eisteddfodau sir yr Urdd, ac felly penderfynwyd peidio parhau i gynnal y gynhadledd.

Cafwyd trafodaeth am ddulliau eraill o dargedu pobl ifanc mewn digwyddiadau megis Maes B, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Frenhinol.

Nodwyd fod cydweithio wedi bod yn digwydd rhwng S4C a Radio Cymru o ran gwobrau Selar, hefyd mae C2 ac S4C wedi bod yn cydweithredu ar brosiectau gwe-ddarlledu.

Cafwyd trafodaeth am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc yn ogystal â'r bwriad i gynnal cynhadledd a lansio porth ar-lein.

Awgrymwyd y dylid ystyried darlledu gweithgareddau Maes B yn fyw o'r Eisteddfod eleni. Esboniodd DRh fod trafodaethau ar y gweill gyda'r Eisteddfod o ran cydweithredu i hyrwyddo gweithgareddau Maes B, gan gynnwys defnyddio ffrwd Snapchat S4C er mwyn targedu pobl ifanc, ond nad oedd cynlluniau ar hyn o bryd i ddarlledu o Faes B eleni.

Awgrymwyd y dylid ystyried strategaeth benodol ar gyfer pobl ifanc, a chadarnhaodd IHJ mai dyna oedd y bwriad. Esboniodd fod gwaith paratoi ar y gweill ond bod rhagor o waith ymchwil cyn y bydd modd cyflwyno strategaeth drafft i'r Awdurdod.

Nodwyd elfen o bryder parthed cynnydd o ran adrodd yn ôl am y pyrth ar gyfer ieuencid a dysgwyr ers Diwrnod i Ffwrdd Tachwedd 2015.

Penderfynwyd y dylid datblygu strategaethau ar gyfer pobl ifanc a dysgwyr, i'w trafod gan yr Awdurdod maes o law.

Yn ogystal nodwyd y byddai swyddogion yn ystyried ymhellach pa ddefnydd y gellir ei wneud o weithgareddau Maes B 2016.

Pwyllgor Craffu Adleoli a Chydleoli

Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu er mwyn derbyn diweddariad ar y Prosiect Adleoli o fewn y ddeufis nesaf.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

[Crynodeb: Cyfeiriodd at faterion ariannu S4C a phenderfyniad Ymddiriedolaeth y BBC i gynnal lefel incwm S4C yn 2016/17 ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol. Roedd wedi derbyn ymateb pellach gan RF yn nodi awydd i drafod trefniadau perthnasol ar gyfer 2017-18.]

Adroddiad Clementi

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at y crynodeb byr o argymhellion Syr David Clementi ym mhapurau'r Awdurdod ar gyfer trafodaethau'r Awdurdod am berthnasedd argymhellion Clementi i S4C.]

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Ail-strwythuro

Cyflwynwyd diweddariad parthed cynlluniau ail-strwythuro'r Adran Gyfathrebu a'r Gegin a drafodwyd gan y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth yn ei gyfarfod diwethaf. Esboniwyd y bwriedir cyflwyno camau nesaf y cynlluniau Adleoli ac Ail-strwythuro gweithlu S4C i'r Awdurdod ym mis Gorffennaf.

Yn dilyn yr adolygiad marchnata roedd IHJ a GW yn awyddus i gychwyn ail-strwythuro'r adran gyfathrebu.

Nodwyd fod y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth wedi cymeradwyo argymhell y newidiadau i'r cynllun i'r Awdurdod.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am ddyletswyddau'r tîm dadansoddi.]

Yn dilyn trafodaeth parthed y cynlluniau cymeradwywyd yr argymhellion ar gyfer ail-strwythuro'r Adran Gyfathrebu a'r Gegin.

Lansiad rhaglen Philip Jones Griffiths

Adroddodd IHJ ei fod wedi mynychu lansiad y rhaglen yn y Frontline Club, Llundain, a nododd ei bod yn ddigwyddiad llwyddiannus, gyda nifer fawr o bobl wedi mynychu.

Holwyd sut mae cynlluniau ar gyfer rhaglenni o'r fath yn cyd-fynd gyda'r agenda bartneriaethau. Awgrymwyd fod cyfle wedi ei gollu yng nghyd-destun rhaglen Philip Jones Griffiths i gydweithio gyda'r Llyfrgell Genedlaethol a gynhaliodd arddangosfa o waith y ffotograffydd yn 2015. Gallai cydweithio agosach o ran amseru'r arddangosfa a'r darllediad fod wedi cynyddu ymwybyddiaeth o weithgareddau'r Llyfrgell ac S4C a chynyddu gwerth ac ardrawiad i'r ddau sefydliad.

Esboniwyd fod trafod cynlluniau ar gyfer rhaglenni arfaethedig yn rhan o'r agenda bartneriaethau ond nad oedd wastad yn bosibl i gydlynu amserlenni S4C a phartneriaid.

Awgrymwyd y dylid ystyried sut i ddatblygu'r dulliau o gydlynu prosiectau tebyg rhwng S4C a phartneriaid yn y dyfodol.

Nodwyd fod y rhaglen wedi denu sylw cadarnhaol ar gyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys gan newyddiadurwr di-gymraeg sy'n ymwybodol o waith Philip Jones Griffiths. Roedd hyn yn enghraifft o raglen sydd â'r gallu i apelio'n eang i gynulleidfa newydd gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i dargedu carfanau penodol ac i gael eraill i argymhell gwylio cynnwys S4C.

Penderfynwyd parhau i ystyried sut i gynllunio cyfleoedd hir dymor i elwa o bartneriaethau a chael yr impact mwyaf o fuddsoddiad mewn cynnwys.

6. Rhaglenni'r Mis Aeth Heibio

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio. Cafwyd canmoliaeth i nifer o raglenni ond awgrymwyd fod rhai rhaglenni sy'n rhy debyg yn cael eu darlledu yn rhy agos at ei gilydd yn yr amserlen ar adegau. Cafwyd canmoliaeth i'r sylw sy'n cael ei roi i chwaraeon merched o fewn darpariaeth S4C a nodwyd fod S4C yn arwain yn y maes.]

MATERION CHWARTEROL

7. Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 3 2015-16

Cyflwynodd GW ei adroddiad i'r Awdurdod ar weithgareddau'r Adran Gyfathrebu yn ystod Chwarter 3 2015-16.

Nododd fod blaenoriaeth yn yr ymgyrchoedd marchnata yn cael ei rhoi i ddenu gwylwyr dan 35, teuluoedd cymysg eu hiaith a'r rhai llai rhugl.

[Crynodeb: Cyfeiriodd at nifer o gynlluniau diweddar i newid y pwyslais o ddefnyddio'r cyfrwng print at y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.]

Roedd 100,000 o bobl wedi gweld fideo Ceffylau Cymru ar Facebook. Nodwyd

bod angen medru ychwanegu ffigurau o'r math at gyfanswm y gwylio a fesurir gan BARB yn y dyfodol.

Ymgyrch hyrwyddo yng Nghaernarfon

Cyfeiriwyd at yr ymgyrch hyrwyddo a leolwyd mewn siopau yng Nghaernarfon. Roedd yn amlwg fod yr ymgyrch yn fwy llwyddiannus o ran darbwyllo pobl i roi manylion cyswllt pan roedd aelod o staff yn bresennol. Y bwriad yw cynnal ymgyrch debyg mewn lleoliad arall er mwyn gallu asesu a yw'r math hwn o ymgyrch yn ddefnydd effeithiol o amser ac arian yr adran.

Hacio'n Holi

Cyfeiriwyd at ganfyddiadau holiaduron Hacio'n Holi a oedd yn dangos fod 53% o'r rheini a holwyd yn gwylio rhaglenni S4C, ond fod llai na 50% yn ymwybodol o bresenoldeb S4C ar Trydar.

Prosiect data

Adroddwyd fod nifer o broblemau technegol a chyfreithiol wedi codi o ran defnyddio bas-data presennol S4C ar gyfer e-farchnata. Mae oddeutu 8,000 o gyfeiriadau e-bost ar y bas-data hanesyddol a'r bwriad yw danfon un e-bost atynt i ddarbwyllo pobl i danysgrifio i'r gwasanaeth e-bost newydd. Mae nod strategol o gyrraedd 15,000 o gyfeiriadau e-bost erbyn Mawrth 2017, a chyfanswm o 60,000 o fewn tair blynedd.

Awgrymwyd y dylid teilwra cynnwys yr e-byst ar gyfer carfannau arbennig, yn hytrach na danfon cynnwys cyffredin i bawb. Dylid hefyd sicrhau cydweithrediad partneriaid er mwyn hyrwyddo'r cynllun e-byst.

Ymgyrchoedd Corfforaethol

Lluniwyd ymgyrch hyrwyddo ym mis Rhagfyr ar gyfer Un Seren - fideo hyrwyddo rhaglenni'r Nadolig, gydag Alys Williams yn canu. Fodd bynnag, rhyddhawyd cân Wynne Evans o'r gyfres Wynne ar Waith fel can elusen S4C yn ystod yr un cyfnod. O'r herwydd, roedd yn anodd blaenoriaethu'r fideo hyrwyddo'r un pryd â chân gan S4C oedd yn ceisio codi arian i elusennau.

Perthynas gyda chwmnïau cynhyrchu

Esboniodd GW ei fod yn awyddus i fireinio'r dulliau ar gyfer cyfathrebu negeseuon rhwng S4C a'r sector gynhyrchu, a'i fod wedi sefydlu system er mwyn sicrhau y bydd pob datganiad corfforaethol yn cael ei ddarparu i'r cwmnïau cynhyrchu.

Mae bwriad hefyd i gynnal cyfarfodydd briffio ar gyfer cwmnïau cynhyrchu ar ffurf gwe-gyfarfodydd cyson yn y dyfodol.

Digwyddiadau - Y Ffair Aeaf

Cafwyd presenoldeb yn adeilad S4C yn y Ffair Aeaf eto ym mis Rhagfyr. Roedd GW wedi asesu ardrwriad presenoldeb S4C ac roedd o'r farn nad oedd yn cynnig gwerth sylweddol i S4C. Roedd felly wedi trafod opsiynau yn fewnol, a gyda swyddogion y Sioe. Penderfynwyd caniatáu'r sioe i ddefnyddio'r gofod, a'i

osod i stondinwyr yn ystod y Ffair Aeaf. Ni fydd hyn yn effeithio ar ddefnydd S4C o'r adeilad yn ystod y Sioe Frenhinol ym mis Gorffennaf.

Lansiad Byw Celwydd

Cafwyd ymateb da i'r lansiad gyda sawl AC yn bresennol.

Sioe Nadolig Cyw

Roedd ffigyrau presenoldeb y sioe Nadolig ychydig yn is yn 2015 na'r blynyddoedd diwethaf, ond hwyrach fod y dyddiad cyhoeddi wedi bod braidd yn hwyr ac felly wedi effeithio niferoedd. Y nod eleni yw cyhoeddi dyddiadau'r sioeau erbyn Eisteddfod Urdd.

8. Hyfforddiant

Esboniodd GW ei fod yn awyddus i ddatblygu dulliau gweithio'r adran, ac fel rhan o'r cynllun ail-strwythuro y byddai hyfforddiant yn cael ei gynnig i staff mewn meysydd megis golygu *pen-desg*. Maes o law gobeithir y bydd holl staff yr adran yn hyddysg yn y dulliau o olygu clipiau ar gyfer pwrpasau marchnata a hyrwyddo.

Diolchwyd i GW am ei adroddiad ac am gyflwyno'i syniadau newydd ar gyfer hyrwyddo cynnwys S4C.

Pwysleisiodd GH y pwysigrwydd o geisio sicrhau, ar ôl cyfnod hir ond llwyddiannus o drafod cyllid yn gyhoeddus, fod yna bwyslais yn awr ar gyflwyno negeseuon cadarnhaol a chyffrous dros y flwyddyn nesaf, a sicrhau fod delwedd o S4C fel corff a gwasanaeth blaengar yn cael eu cyflwyno cyn yr adolygiad.

9. Adroddiad Partneriaethau

Cyflwynwyd yr Adroddiad Partneriaethau ar gyfer Chwarter 3 2015-16 er gwybodaeth.

10. Adroddiad Ariannol Chwarter 3 2015-16

[Crynodeb: Cyflwynodd Sharon Winogorski y Cynllun Ariannol 5 mlynedd drafft, gan gynnwys cyllideb fanwl ar gyfer 2016-17. Cyflwynodd y nodiadau arweiniol er mwyn esbonio'r rhagdybiaethau o fewn cyllideb 2015-16.]

Cymeradwyodd yr Awdurdod y Cynllun Ariannol 5 mlynedd drafft yn amodol ar faterion incwm ac Adolygiad 2017 a nodwyd y byddai angen ail-ymweld gyda'r cynllun yn rheolaidd dros y blynyddoedd nesaf.

11. Adroddiad Masnachol

[Crynodeb: Cyflwynodd CB ddiweddariad ar weithgareddau'r Bwrdd Masnachol a nodwyd fod bwriad i gyflwyno diweddariad i'r Awdurdod ar yr holl fuddsoddiadau ym Mehefin. Cafwyd trafodaeth am ymwneud yr Awdurdod o fewn y prosiectau masnachol ac fe fydd cyfle i ystyried materion o'r fath ymhellach yn y cyfarfod ym fis Mehefin.]

12. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth

Yn absenoldeb HHE, cyflwynodd PW gofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth a gynhaliwyd ar 25.02.16. Cyfeiriwyd yn benodol at y materion canlynol.

Materion Archwilio a Rheoli Risg

Nodwyd fod bwriad i gynnwys cofrestr pwyntiau gweithredu fel rhan o bapurau holl bwyllgorau'r Awdurdod. Bydd y Pwyllgor yn ystyried effeithlonrwydd y gofrestr i weld a yw'n cynorthwyo'r Awdurdod i fonitro penderfyniadau a chynnydd ac a oes ffyrdd i wella'r drefn ymhellach.

Cafwyd trafodaeth am gytundebau'r archwilwyr allanol a mewnol. Mae cytundeb yr Archwilwyr Mewnol yn cynnwys cymal terfynu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol, ac mae cytundeb yr Archwilwyr Allanol hefyd yn dod i ben eleni. Bydd y Pwyllgor yn ystyried opsiynau maes o law cyn cyflwyno argymhelliad i'r Awdurdod.

Cafwyd trafodaeth am sut i gyfuno dyletswyddau archwilio, rheoli risg, personél a chydnabyddiaeth y Pwyllgor yn dilyn ail-strwythuro diweddard y pwyllgor a phenderfynwyd cadw cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Personél ar wahân am y tro er mwyn asesu ymhen blwyddyn a yw'r drefn newydd o gyfuno gwaith y ddau bwyllgor yn effeithiol. Bydd y pwyllgor yn newid trefn yr agenda am yn ail gyfarfod er mwyn rhoi sylw teilwng i faterion y naill gylch gorchwyl a'r llall.

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad gan Rhys Bevan a Steve Cowin ar wasanaethau cymorth ac iechyd a diogelwch S4C.

13. **Materion Personél a Chydnabyddiaeth**

Cyflwynodd GW a GLL adroddiad yn ymwneud ag ailstrwythuro Adran Gyfathrebu a'r gegin, gan gynnwys diweddariadau i gynllun yr Adran Gyfathrebu a phenderfynodd y Pwyllgor argymell i'r Awdurdod i gymeradwyo'r argymhellion.

14. **Adroddiad y Pwyllgor Cynnwys**

Cyflwynodd MWJ adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 27.01.16.

[Crynodeb: Cafwyd cyfle i drafod arlwy'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a nodwyd fod y defnydd cynnil o archif wedi llwyddo i greu amserlen ddiddorol a phoblogaidd.

Cyflwynwyd adroddiad a baratowyd gan arbenigwr allanol parthed portreadu amrywiaeth o fewn gwasanaeth S4C yn dilyn cyfnod o fonitro'r gwasanaeth. Nodwyd fod y Pwyllgor yn awyddus i ystyried y pwnc yn ehangach yn yr Awdurdod. Casgliad y Pwyllgor ar sail yr adolygiad oedd nad oedd problem gyffredinol o ran portreadu amrywiaeth ar y sgrin, ond bod angen parhau i ystyried y pwnc.]

Polisi Ffilm / Cynnwys Hirhoedlog

Cafwyd trafodaeth am bwysigrwydd ffilm a chynnwys hirhoedlog o fewn yr amserlen, yn enwedig dros gyfnod megis y Nadolig. Esboniwyd fod yr Adran

Gynnwys yn ystyried sut i ddatblygu ymwneud S4C ym maes ffilm ac y byddai cyfle i drafod y mater ymhellach o fewn y Pwyllgor Cynnwys yn dilyn trafodaethau'r swyddogion.

D
y
d15.
d
i
a
d
y
c
y
f
a
r
f
o
d

Adroddiad o Noson Gwylwyr Yr Wyddgrug.

Trafodwyd adborth Noson Gwylwyr Yr Wyddgrug a gynhaliwyd ym mis Tachwedd a nodwyd barn unfrydol y gynulleidfa parthed diffyg cynrychiolaeth gweithgareddau o'r Gogledd Ddwyrain yn narpariaeth S4C. Er gwaetha'r siom parthed diffyg cynrychiolaeth, roedd cefnogaeth a gwerthfawrogiad sylweddol ymysg y gynulleidfa i wasanaeth S4C. Ers y noson, mae cyfres am filfeddygon yn Rhuthun wedi ei darlledu a chyfres am Ysgol Maes Garmon i'w darlledu eleni.

Cafwyd trafodaeth am sut i sicrhau adlewyrchiad teg o Gymreictod a digwyddiadau yn yr ardal o fewn arlwy'r rhaglenni dyddiol ac roedd y Pwyllgor yn falch i ddeall fod DRh yn trafod opsiynau gyda swyddogion Tinopolis.

MATERION ERAILL

16. Adroddiadau Gwifren Gwylwyr

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

17. Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth

[Crynodeb: Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth er gwybodaeth. Trafodwyd un o'r cwynion cyfredol ym maes ein gwasanaethau mynediad.]

D
y
d
d18.
i
a
d
y
c
y
f
a
r
f
o
d

18. Rhaglen Waith drafft ar gyfer 2016/17

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod yn 2016/17

19. Unrhyw Fater Arall

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

14 Ebrill, 2016